

## Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd  
ddydd Gwener, 29 Tachwedd 2019, yn yr  
Ystafell Werdd, Parc Llanion 10.00am**

Yn bresennol:

Y Cyngh. Paul Harries      Cadeirydd yr Awdurdod  
Y Cyngh. Di Clements  
Mrs Julie James

Tegryn Jones, y Prif Weithredwr, ar gyfer eitem 5

1. Ymddiheuriadau  
Dim.
2. Datgan Buddiant  
Dim.
3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2019  
Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gywir.
4. Gwahardd y cyhoedd  
Fe wnaeth y panel wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod.
5. Adolygiad o gynnydd ar sail y targedau a'r amcanion a osodwyd ar gyfer y Prif Weithredwr a chytuno ar yr amcanion ar gyfer 2020-2021

Ystyriodd y panel adroddiad a baratowyd gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â thargedau eleni a thrafodwyd gydag ef unrhyw faterion yn codi.

Llongyfarchodd y panel y Prif Weithredwr ar y flwyddyn ddiwethaf a chadarnhaodd y panel ei fod yn gwbl fodlon â chyflawniadau a pherfformiad y llynedd.

Penderfynwyd:

- a. Bod y panel yn gwbl fodlon â'r perfformiad, ac yn cytuno ar y prif heriau y cyfeiriwyd atynt gan y Prif Weithredwr yn ei adroddiad.
- b. Bod y panel wedi nodi bod angen canolbwyntio ar y canlynol yn 2020-21:
  - i. Adolygu a rheoli adnoddau'r Awdurdod, i gynnwys proses i archwilio opsiynau, gyda chyfranogiad yr Aelodau, gyda'r bwriad o osod cyllideb gytbwys yn 2020-21;
  - ii. Codi graddfa'r uchelgais gyda staff trwy archwilio ffynonellau newydd o gyllid a ffyrdd newydd o weithio;

- iii. Cynnal adolygiad corfforaethol o flaenoriaethau'r dyfodol gan gynnwys Aelodau, staff a rhanddeiliaid;
- iv. Sicrhau bod strwythur Rheoli Cyrchfan yn cael ei ddatblygu;
- v. Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd cadarnhaol a gyflwynir gan hanner canfed pen-blwydd Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro;
- vi. Cefnogi'r Rheolwr Adnoddau Dynol newydd a sicrhau adolygiad ac ymgynghoriad ar bolisiâu ac arferion Adnoddau Dynol;
- vii. Ystyried ymrwymo i Safon Iechyd Gorfforaethol Llywodraeth Cymru i gofleidio iechyd a lles y staff;
- viii. Cefnogi gwaith tuag at Siarter Uwch Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- ix. Cynnwys y Cadeirydd wrth gytuno ar eitemau agenda priodol a gweithredu fel cyfrwng i'r Aelodau godi materion.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50am.